Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Amser i ymlacio - parhad

Dathlu a Diolch

Er mwyn diolch iddo am ei gyfraniad sylweddol dros y blynyddoedd trefnwyd dau beth, sef ei fod yn cael ei anrhegu ac ein bod fel eglwys yn cael y cyfle i ddathlu drwy gael cinio blasus gyda'n gilydd ar ôl gwasanaeth arbennig ym Methesda. Yn rhagluniaethol, yn pregethu gyda ni ar y Sul hwnnw roedd Y Parchg John Gwilym Jones. Cawsom nid yn unig bregeth bwrpasol iawn ond bu'n ddigon caredig hefyd i gyfansoddi, ar ein cais, englyn i gofnodi'r achlysur. Yna ymunodd gyda ni fel aelodau a theulu Morlais, a'r cyn-weinidog y Parchg Emyr Gwyn Evans i gael cinio a rhannu yng nghwmni ein gilydd yng Ngwesty Parc y Strade. Cafwyd prynhawn hapus a chofiadwy mewn cwmni da. Yn ail, er mwyn iddo gael cyfle i fwynhau ei ymddeoliad ac i ymlacio'n llwyr anrhegwyd Morlais drwy roi iddo gadair freichiau ledr hyfryd fel ei fod yn gallu gadael cadair galed y stydi a rhoi ei draed lan mewn cadair gyfforddus yn y lolfa. Dyma'r englyn a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur.

I Morlais Dyfnallt Owen –
Ysgrifennydd Eglwys Annibynnol Bethesda, Y Tymbl

Duw ddoe fu'n plannu'n ein plith –
un a ddaeth
â'i ddawn i ni'n fendith;
nithiwr awen, llên a llith,
a thrylwyr ei athrylith.

J. G. J.

Elen Davies

Optimist a Phesimist

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng pesimist ac optimist? Cynigiwyd nifer o atebion, ac un ohonynt yw bod y pesimist yn gweld anhawster ymhob cyfle a'r optimist yn gweld cyfle ym mhob anhawster. Yn aml iawn y mae'r pesimist yn cwyno fod ei gwpan yn hanner gwag tra bod yr optimist yn diolch fod ei gwpan yn hanner llawn! Yn ein tŷ ni, y mae Beryl yn tynnu fy nghoes yn aml drwy ddweud fy mod yn optimist anghyfrifol sy'n cael ei siomi yn amlach o lawer na hi. Clywais eraill yn dweud nad ydynt yn optimistiaid na chwaith yn besimistiaid ond yn hytrach yn edrych ar fywyd drwy lygad realydd. Y gwir yw, y mae tipyn o'r ddwy natur ym mhawb ohonom, ond ein bod yn tueddu i wyro mwy tuag at y naill neu'r llall.

Carcharor Gobaith!

Gŵr a brofodd adfyd yn ystod ei fywyd oedd yr Archesgob Desmond Tutu, ond anaml iawn y gwelsom dristwch ar ei wedd. Gofynnwyd iddo un tro sut y llwyddodd i gadw'n llawen yng nghanol gormes a chasineb llywodraeth De Affrica tuag ato a thuag at bobl dduon yn gyffredinol, ei ateb yn syml oedd, *'I am a prisoner of hope.'*.

Gŵr a nodweddid ag ysbryd gobaith oedd yr Apostol Paul. Er iddo dreulio blynyddoedd yn garcharor yn Rhufain, nid ystyriai ei hunan yn garcharor i Nero yr Ymerawdwr ond fel '*carcharor i Grist.'*. Yn wir, onid paradocs mwyaf ei fywyd oedd ei fod yn garcharor rhydd? Teimlai Paul yn fwy rhydd yn ei gadwyni yn y carchar nag yr oedd Ymerawdwr Nero yn ei balas! Teimlai mai yng Nghrist y mae *'gobaith y gogoniant.'*

Beth amdanom ni?

Heddiw, rydym yn byw mewn cyfnod cythryblus yn ein gwlad a'n byd, ac y mae'n hawdd ymollwng i ddigalondid ysbryd ac anobaith llwyr. Dengys hanes, fodd bynnag, fod i bob canrif ei hargyfyngau. Digwyddodd hyn yn hanes Cristnogion yr Eglwys Fore yn y ganrif gyntaf pryd gwyddai Paul gystal â neb am wrthwynebiad chwerw ei oes i'r Arglwydd Iesu a'i ddilynwyr. Yn wir, yn ei lythyr at aelodau Eglwys Effesus, cyffelybodd fywyd y Cristion i filwr ar faes y gad, ond gwnaeth hynny gan ein hannog i '*ymarfogi â holl arfogaeth Duw, er mwyn ichwi fedru gwrthsefyll yn y dydd drwg, ac wedi cyflawni pob peth, sefyll yn gadarn.'* Fel yr Apostol Paul, roedd yr Archesgob Tutu hefyd yn Iesu Grist yn *'garcharor gobaith.'*

Dechreuais yr ysgrif hon gyda chwestiwn yn gofyn ai pesimist neu optimist ydym gan awgrymu fod dipyn o'r ddau ym mhawb ohonom. Ond beth bynnag am hynny, ni ddaeth Iesu i'n byd i wneud ein bywyd yn hawdd ond i'n galluogi i frwydro ymlaen heb ddigalonni ac i fod yn gyfryngau gobaith a chariad i'r hwn a'n carodd hyd angau ar groes, ac sy'n fyw heddiw i dderbyn ein diolch a'n clod.

Gweddi

Ein Tad, yng nghanol brwydr bywyd, rho oleuni d'obaith yn ein llygaid a thân dy gariad yn ein calon. Er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

John Lewis Jones

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 149 | Rhif 37 | Medi 8, 2016 | 50c.

PENWYTHNOS PIMS

(Pobl Ifanc Minny Street)

2013...

Yn 2013, am y 9fed flwyddyn o'r bron aeth PIMS i Goleg Iwerydd, San Dunwyd am benwythnos o hwyl a myfyrdod.

- 9 ymweliad...
- 9 penwythnos yn drwm o antur a menter.
- 9 penwythnos yn drwch o hwyl a chwerthin.

Onid oes yn rhywbeth yn lletchwith am y rhif 9? Onid gwell yw 10?

Mae 10 yn gyflawn; twt ydyw.

Bu cryn bwysau ar Weinidog Eglwys Minny Street i drefnu ymweliad arall â'r Coleg. Wedi tair blynedd o gyson bwyso, cafodd PIMS ei dymuniad! Eleni, 2016, am y 10fed tro, aeth PIMS i Goleg Iwerydd, San Dunwyd am benwythnos a myfyrdod.

Coleg chweched dosbarth i fyfyrwyr ar draws y byd i gyd yw Coleg yr Iwerydd. Saif ar lan y môr yn San Dunwyd a lle hudol Hogwartaidd ydyw! Mae'r adran efrydiau allanol yn cynnig lle i oddeutu 20 aros yno am benwythnos, a chymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau.

Braf oedd cael cwmni 15 o bobl ifanc yn y Coleg eleni, yn amrywio mewn oed o flwyddyn 7 i flwyddyn 12 (wnawn ni ddim crybwyll oed Owain, Lona, Geraint a Dyfrig!). Cafwyd hwyl i'w rhyfeddu, yn canŵio, nofio, dringo'r wal ddringo, ac eto fyth dringo'r cwrs rhaffau uchel. 'Roedd yr *Initiative Exercises* yn dreth ar feddwl a chorff. Dysgwyd sut i saethu bwa saeth hefyd! Enillydd y gêm *Pringle* eleni oedd Tomos, ond ... 'roedd Elin o fewn trwch blewyn brithyll o ennill, a hithau heb gystadlu o'r blaen.

Yn ogystal cafwyd amser i sgwrsio dros baned a phryd o fwyd, wrth olchi llestri a cherdded gerddi'r Coleg. Ni ddylid anghofio'r Epilog nos Wener a nos Sadwrn. Y bobl ifanc sydd yn trefnu'r addoliad hwn ymhlith ei gilydd: darlleniadau, gweddïau a chanu.

'Rydym, fel eglwys yn falch iawn o'n pobl ifanc. Mae hwyl eu cwmni, ac asbri eu ffydd yn donic enaid!

2017...?

Onid oes yn rhywbeth yn lletchwith am y rhif 10? Onid gwell yw 11?

Cyn ymadael â'r Coleg, ffurfiwyd pwyllgor brys, a phenodi Shani i siarad â'r Gweinidog (daw "bys bach" a "rownd" i'r meddwl): un neges oedd ganddi: 'Rhaid dod eto! Rhaid i PIMS gael dychwelyd i Goleg Iwerydd yn 2017'.

Cawn weld...

Amser i ymlacio

Yn aml ar Y Tyst rydym yn darllen am bobl sydd wedi rhoi cyfraniad oes i'w heglwys leol - weithiau nifer helaeth, bron anghredadwy, o flynyddoedd o wasanaeth di-dor. Fe deimlwn ddyled ac rydym eisiau dangos ein diolchgarwch a'n hedmygedd o glywed am y fath ymroddiad. Rydym yn ddyledus iawn yn Eglwys Bethesda'r Tymbl i Mr Morlais Dyfnallt Owen sydd wedi bod yn ysgrifennydd ffyddlon i'r eglwys hon am dair blynedd ar ddeg ar hugain. Bu'n rhaid iddo yntau gymryd drosodd ar fyr rybudd pan oedd yr ysgrifennydd blaenorol yn sâl yn ei wely a dim gwella iddo. Nid y sefyllfa fwyaf hawdd i gael eich hun ynddo. Dyma mae'n siŵr sy'n esbonio pam fod Morlais wedi cael y weledigaeth o sicrhau bod is-ysgrifennydd yn yr eglwys fel bod modd dysgu rhywfaint ac ymgyfarwyddo cyn gorfod camu i mewn i esgidiau mor brofiadol. I ddweud y gwir rhaid cael dwy i gamu mewn i esgidiau'r gŵr dawnus hwn!

Manwl a chydwybodol

Yn ystod ei gyfnod wrth y llyw mae Morlais wedi ymgymryd â swydd ysgrifennydd gyda thrylwyredd a manylder anhygoel. Mae'r nodiadau blynyddol wedi bod yn gofnod hanesyddol manwl iawn o'r gweithgareddau yng nghalendr yr eglwys. Gofynnwn y cwestiwn, tybed a oes cofnod mwy manwl unrhyw le yng Nghymru? Pan wnaethom ddathlu canmlwyddiant yr eglwys roedd nodiadau Morlais yn golygu

ei fod wedi gallu cynhyrchu llyfr ar hanes yr eglwys oedd yn deilwng o hanesydd wrth ei waith ac nid ysgrifennydd eglwys. Gan ei fod yn bregethwr cynorthwyol sydd â galw mawr am ei wasanaeth ni fyddai wastad yn gallu bod yn bresennol ym mhob cwrdd a gwasanaeth. Serch hynny byddai'r cofnod yr un mor fanwl. Sut felly meddech chi? Wel, beth yw'r dywediad yna am wraig dda tu ôl i bob dyn llwyddiannus? Mae'n siwr bod cyfraniad Morlais wedi gallu bod cystal gan fod Menna wastad wedi bod yn gefn cadarn iddo.

Trosglwyddo'r fantell

Fel y soniwyd yn gynt bu rhaid i Morlais gymryd at awenau'r ysgrifennydd yn sydyn ac o dan amgylchiadau anodd a thrist ac felly mae wedi sicrhau ei fod yntau yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb ar ôl paratoi'r ffordd ers rhai blynyddoedd. Gwnaeth hynny yn y ffordd fwyaf hwylus a didrafferth ar ôl y Pasg gan sicrhau ein bod yn gwybod ei fod yno i gefnogi a chynghori pan fo'r galw a'r angen.

parhad ar y dudalen gefn

Dafydd a Bathsheba

Yn ystod cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr fe arweiniwyd yr Astudiaethau Beiblaidd gan y Parchg Kenneth Linter ac fe gafwyd gwledd wrth iddo agor y gair. Dyma ran cyntaf crynodeb o'i astudiaeth ar Dafydd a Bathsheba. Bydd yr ail ran yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Pan gymerais y myfyrdodau Beiblaidd yn Undeb Dolgellau ym 1998, cyfeiriais at yr Octateuch yn nhermau'r wyth llyfr cyntaf yn ein Beiblau ni, sy'n dilyn cynnwys yr Hen Destament Hebraeg ond trefn, fwy neu lai, y cyfieithiad Groeg ohono (LXX). Golygai hynny fod gennym yn yr wyth llyfr enghraifft o bob un o'r tair adran yn yr Hen Destament Hebraeg: Torah/Cyfraith, Proffwydi, Ysgrifeniadau. A dewisais hanesion am y tair gwraig yno sydd yn rhestr achau efengyl Mathew, pennod 1, sef Tamar, Rahab a Ruth. Peth anghyffredin oedd cynnwys gwragedd mewn achresi, a'r tair hyn i gyd yn anghyffredin fel aelodau o restr achau yr Arglwydd Iesu – dwy yn sicr o wlad estron, un yn butain, ac elfen anghyffredin yng ngeni plentyn dwy ohonynt.

Octateuch

Ond nid yw llyfr Ruth yn yr Octateuch go iawn, er bod Origen yn y drydedd ganrif yn gwybod am Ruth fel atodiad i lyfr y Barnwyr, am resymau amlwg. Yr Octateuch go iawn yw'r saith llyfr gyntaf yn ein Beiblau ni, plws Samuel (I a II yn un llyfr yn wreiddiol) plws I Brenhinoedd 1 a 2, h.y. yn ei fersiwn terfynol yr hanes mawr o'r Creu ac o Abraham hyd at sefydlu Solomon yn frenin. Byddai rhai am gael naw llyfr, gan estyn y cyfan hyd at y Gaethglud i Fabilon a diwedd y frenhiniaeth.

O gynnwys Samuel, cawn hanes byw o ddigwyddiadau llys Dafydd yn II Samuel 9-20, a deuwn at y bedwaredd wraig yn achres Mathew. Dywed Mathew: "Yr oedd Dafydd yn dad i Solomon, a gwraig Ureia yn fam iddo," h.y. nid ydyw'n enwi Bathseba. Dyma'r unig gyfeiriad yn y Testament Newydd, a hwnnw'n un cynnil, at bechod mawr Dafydd. Darllenwn felly II Samuel 11.1b – 12.7a.

Y Beibl Byw

Dyma flwyddyn y Beibl byw. I fod yn fyw, rhaid dangos ei fod yn berthnasol, ac un ffordd o wneud hynny yw ei ddefnyddio i ddeffro cydwybod ac os nad yw'r stori hon yn deffro cydwybod, pa stori sydd? Mae'r hanes yn cael ei adrodd yn hynod o gelfydd mewn Hebraeg clasurol. Fel y gwyddom, mae'r un llythyren fach yn Hebraeg sy'n golygu "ac" hefyd yn gallu golygu "ond". A phwysig yw gwybod pryd mae'n golygu "ond". Ac yma mae BCN yn gampus. Yr oedd rhan o fyddin Israel yn gwarchae ar ddinas Rabba, lle mae Amman, prifddinas gwlad yr Iorddonen, heddiw. "Ond fe arhosodd Dafydd yn Jerwsalem." Pam? Ar ddiwedd pennod 12 mae Joab, capten y llu, yn galw ar Ddafydd i ddod â gweddill y fyddin. Yr oedd brenhinoedd yn dal i fod ar flaen y gad, fel cadfridogion yr adeg honno!

Blys Dafydd

Y oedd arhosiad a segurdod Dafydd yn Jerwsalem yn dyngedfennol. Yr oedd ganddo, wrth gwrs, nifer o wragedd yn barod. "Un prynhawn" – Beibl.net "yn hwyr un prynhawn" : i'r dim. Gwelodd wraig yn ymolchi: "un brydferth iawn" (Beibl.net "arbennig o hardd"). Yn llythrennol, "yn dda iawn i edrych arni". Ie, edrych. Cofiwch eiriau'r Arglwydd Iesu, athro mwyaf y Gyfraith, fod "pob un sy'n edrych mewn blys ar wraig eisoes wedi cyflawni godineb â hi yn ei galon". Ar achlysur arall dywedodd: "Pwy bynnag ohonoch sy'n ddi-bechod..." Ac aethant allan, "y rhai hynaf yn gyntaf". Faint ohonynt hwy oedd wedi llygadu'r wraig odinebus yn y canol mewn blys? Ac nid yw henaint o reidrwydd yn difa'r nwydau.

Beichiogodd

Mae Dafydd yn holi pwy yw hi, ac mae'r cyfieithiadau yn dweud ei fod wedi cael ateb. Ond mae'r Hebraeg a'r Groeg yn dweud, "A dywedodd", h.y. Dafydd sy'n dal i siarad "Onid Bathseba, gwraig Ureia yr Hethiad?" Ni wyddom a oedd Bathseba yn cytuno â'r hyn a ddigwyddodd. Ynteu a oedd hi'n ufuddhau i orchymyn y brenin a fihafiodd ar yr achlysur hwn, yn ei flys, fel teyrn ac nid fel bugail ei bobl? "Gorweddodd gyda hi" – i'r dim. Beibl.net: "cael rhyw" – ymadrodd yr wyf yn ei gasáu. A dyna'r neges i'r brenin: "Beichiog myfi"/ "Rwy'n feichiog". S.O.S., a chloch larwm i Ddafydd.

Godineb

Pechod oedd godineb tair mil o flynyddoedd yn ôl, a phechod yw godineb heddiw, mewn cymdeithas lle mae anlladrwydd, godineb a phob math o wyrdroadau rhywiol yn rhemp, er gwaethaf ymdrechion rhai a ddylai wybod yn well i'n perswadio bod anfoesoldeb ddoe yn foesol heddiw ac er gwaethaf tawedogrwydd yr Eglwys ynglŷn â materion moesol personol. Un o hanfodion gwir gysylltiad â'r gymuned yw'r alwad am edifeirwch. Mae godineb, wrth gwrs, yn waeth oherwydd ei fod yn torri cwlwm glân briodas rhwng gŵr a gwraig, i un cwpl os nad i ddau. Ac mae'r cyfan am ddynion yn yr hanes hwn yn wir am wragedd hefyd, wrth gwrs, yn arbennig yn ein cymdeithas ni.

Cynllwynio

Ond y mae Dafydd yn mynd ymlaen i wneud rhywbeth llawer gwaeth. Gwelsom eisoes lygru nwyd Dafydd; yn awn gwelwn lygru ei ddawn – ei ddawn i ddyfeisio a chynllunio. Yn ôl gorchymyn Dafydd i Joab, daw Ureia o faes y gad i gael ei drin yn ffafriol gan ei frenin: twyll a brad. Bydd yn cysgu gyda'i wraig, a bydd pawb, gan gynnwys Ureia, yn meddwl mai ef yw tad y plentyn "Cudd fy meiau rhag y werin".

"Ond gorweddodd Ureia yn nrws y palas." Mor ddramatig! Oherwydd ei egwyddorion a'i deyrngarwch, mae'n rhwystro cynllun y brenin. Mae Dafydd yn holi pam: panig! Gwell gennyf fi gyfieithu geiriau Ureia yn 11.11 yn llythrennol: "Ar dy fywyd a bywyd dy enaid": egwyddorion sy'n llefaru, a chydwybod fyddar sy'n clywed. Nid yw Ureia'n mynd i fynd adref pan yw'r arch a phawb arall yn yr awyr agored. Beth bynnag, nid oedd milwyr ar ddyletswydd i fod i gael cyfathrach rywiol â'u gwragedd. A dyna pam y mae Datguddiad 14.4 yn dweud bod y 144,000 a welodd Ioan gyda'r Oen ar Fynydd Seion yn "ddiwair": hwy yw'r merthyron, milwyr rheng flaen byddin yr Oen, a chariad a gras a gair Duw yn unig arfau iddynt.

Kenneth Lintern

Can Mlwyddiant Eglwys y Tabernacl Porthcawl

Ar ddydd Sul Medi 18fed 2016 bydd y Tabernacl Porthcawl yn dathlu canmlwyddiant sefydlu'r eglwys.

Am 10.30 y.b. cynhelir Oedfa Gymun, a'r pregethwr gwadd yw'r Parchg Ddr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr.

Yn dilyn yr oedfa bydd cyfle i gymdeithasu yn y Neuadd dros baned a lluniaeth ysgafn, cyn ymgynnull yn ôl yn y capel am 2.30.y.h. i barhau'r dathlu trwy gyfrwng Cymanfa Ganu.

Estynnwn wahoddiad cynnes i chi ymuno gyda ni yn ein dathliadau.

Ar ran yr eglwys
Parchg Rosan Saunders, Gweinidog
Tom Price, Ysgrifennydd.

Barn Annibynnol

Dwy Ochr i'r Geiniog

Rwy'n siŵr i bawb fwynhau llwyddiant a gorchestion pobl ifanc Prydain ac yn enwedig y Cymry yn y gemau Olympaidd. Fe welsom fraster heb ei ail - yr adeiladau arbennig, cwrs golff, cae bychan i'r ceffylau ddangos o'u gorau, ac yn y blaen. Ond fe glywsom hefyd am ambell broblem tu hwnt i'r pentref Olympaidd. Mae'n annhebyg iawn y bydd na fraster ar gael i'r werin bobl ar ôl y digwyddiad.

Moscow

Bu i'r wythnosau diwethaf fy atgoffa o'm hymweliadau â Rwsia. Fe es yno yn gyntaf fel ymgynghorwr bwyd, a chefais fy hun mewn ffatri gaws taith 24 awr mewn tren i'r de o Moscow. Ni welais ddim byd tebyg cynt na wedyn. Roedd fframau'r ffenestri pren wedi pydru a chwyn yn tyfu y tu mewn iddynt mewn llawer man. Roedd byw mewn ystafell yn y fatri am rai wythnosau yn brofiad arall! Y dasg o'm blaen oedd codi safonau, ond heb yr offer iawn, heb y cyfleusterau, a heb yr arian i brynu dim, yr unig peth medrwn wneud oedd llongyfarch y gweithwyr eu bod yn gallu cynhyrchu caws o gwbl.

Tlodi

Eurwen Richards

Un diwrnod es gyda'm cyfieithydd i'w chartref, a sylwi bod y craciau yn walydd y ty wedi eu llanw a borfa/chwyn, beth bynnag oedd ar gael. Bob hwyr y dydd, tasg ei phlant oedd chwilio am, a chael gwared y *Colorado beetle,* oedd yn cuddio ar y tatws yn yr ardd. Ni welais y creadur bach hwn ond mewn lluniau cyn hynny. Heb ei ddifetha byddai dim tatws, oedd yn gyfran helaeth o fwyd y teulu dros y gaeaf.

Cyfoeth

Rhai misoedd wedyn roeddwn ar daith wyliau, ac yn ymweld â St Petersburg a'r Hermitage. Mae'n anodd dygymod a sefyllfa mor wahanol tu mewn i'r un wlad. O dlodi i ddigonedd afiach, a dyna rwy'n ofni yw hanes Brasil. Ond a ydy Cymru yn wahanol? Mae'r cynnydd yn y defnydd sydd o'r banciau bwyd yn dweud dipyn am sefyllfa llawer yng Nghymru heddiw.

Ni fyddai'r gemau Olympaidd wedi gallu gweithredu heb y miloedd o wirfoddolwyr, a dyna yw hanes capeli, eglwysi, a llawer mudiad arall. Mae'r cymdeithasu'n braf, ac mae'n deimlad da ein bod yn gwneud rhywbeth o werth. Yn aml daw'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd hefyd.

Dwy ochr i'r geiniog

Ond mae 'na ochr arall i'r stori. Daw hanes o bryd i'w gilydd am sefydliad neu gyflogwr yn defnyddio pobl ddi-waith, rhai sy'n byw ar fudd daliadau, a hynny er mwyn iddynt ddysgu sgil newydd, neu hyd yn oed ail ddarganfod beth yw diwrnod o waith. Wedi cyfnod penodedig disgwylir y bydd y cyflogwr yn barod, os nad yn falch, i dalu cyflog teg am y gwaith. Mae'r gwirionedd yn drist am mai bach o hynny sy'n digwydd. Yn rhy aml bydd y cyflogwr yn edrych am un arall y caiff ei lafur am ddim, ac mae'r rhod yn parhau i droi. Gall sgwrsio ag ambell un yn y banc bwyd fod yn dorcalonnus, a gofynnaf i mi fy hun 'beth allai i wneud yn fwy na chyfrannu i'r banc?' Cwestiwn mae'n bosib y dylai mwy ohonom fod yn ei ofyn yn enwedig o fewn ein heglwysi.

Nadolig Llawen

Yn sydyn, a hithau ddim ond yn ddechrau Medi, mae'r Nadolig wedi cyrraedd ein siopau! Mewn cywreinrwydd treuliais rai oriau'r dyddiau diwethaf yn chwilio trwy'r nwyddau lliwgar a deniadol a arddangoswyd, i weld a oedd na rywbeth am Iesu - a'r ateb, a fyddwch ddim yn synnu, yw 'dim'. Ie eto, ochr arall i'r stori yw hyn.

Ond mae 'na stori gennym, stori gyflawn, mae 'na gân gennym, cân am Geidwad, a'n braint ni fel Cristnogion, fel gwirfoddolwyr, yw ei rannu a sicrhau fod y stori am Dduw a'i gariad yn cael ei gyhoeddi a'i weithredu.

Eurwen Richards

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Dirfodaeth, Cristnogaeth a'r Bywyd Da

Detholiad o Ysgrifau John Heywood Thomas, (gol. D. Densil Morgan ac E. Gwynn Matthews) Y Lolfa; £6.99

Mae John Heywood Thomas yn ffigwr adnabyddus a dylanwadol sydd wedi cyhoeddi nifer o lyfrau pwysig ym maes diwinyddiaeth. Caiff rhai o'i ysgrifau eu cyhoeddi am y tro cyntaf erioed yn y gyfrol hon. Ynddi, mae John Heywood Thomas yn trafod meddylwyr y bu eu gwaith yn ddylanwad mor ffurfiannol ar grefydd a diwylliant ein cyfnod – meddylwyr megis Kierkegaard, Heidegger, Sartre a Tillich.

Trafodir themâu mawr y Dirfodwyr megis rhyddid, byw a marw yn ogystal â pherthynas hanes crefydd ac athroniaeth crefydd. Ym maes diwinyddiaeth ceir ymdriniaeth o bynciau megis myth a symbol mewn crefydd a'r ymchwil am ddiwinyddiaeth fyd-eang.

'Caiff gwaith John Heywood Thomas ar y Dirfodwyr barch mawr gan athronwyr a diwinyddion ar raddfa ryngwladol,' meddai E. Gwyn Matthews, un o olygyddion y gyfrol.

'Mater o falchder i ni yn Urdd y Graddedigion yw mai Cymro Cymraeg ydyw, a'i fod yntau wedi bod yn falch i gyhoeddi gwaith yn y Gymraeg. Erbyn hyn mae wedi cyrraedd ei nawdegau ac mae awydd mawr arno ef a ninnau i weld cyhoeddi peth o'i waith Cymraeg mewn ffurf hygyrch i gynulleidfa ehangach,' meddai.

Mae Densil Morgan yn athro diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant, yn aelod o Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chadeirydd y Panel Hanes, Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth. Mae hefyd yn olygydd ar gyfnodolyn *Y Traethodydd*.

Mae E. Gwynn Matthews yn llywydd Adran Athronyddol Graddedigion Prifysgol Cymru ac yn aelod o Banel Athroniaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ef oedd golygydd *Hawliau Iaith: Cyfrol Deyrnged Merêd* (Y Lolfa, 2015) ac *Y Drwg, y Da a'r Duwiol* (Y Lolfa, 2014).

Lansiwyd y gyfrol ym Mhabell Prifysgol Cymru ar 5 Awst ar faes Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau yng nghwmni E. Gwynn Matthews, D. Densil Morgan, Robert Pope a John Heywood Thomas.

GOFALAETH BRO ALED

Llawenydd yw eich hysbysu o gyfarfod

ORDEINIO A SEFYDLU DR RHODRI GLYN B.A. PhD

YN WEINIDOG I'R ARGLWYDD IESU

dydd Sadwrn, Medi 17eg am 2:00 o'r gloch yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

Croeso cynnes i bawb

Cyffordd Llandudno - 15 Medi am 7.00

Bethania, Tymbl - 26 Medi am 7.00

Mae cynllun newydd Y Ffordd yn adnodd cyffrous, defnyddiol, ymarferol a hwyliog i helpu eich eglwys chi ar y daith unigryw gyda Duw.

Bydd yn para am bedair blynedd, gyda thema gwahanol bob blwyddyn:

- Ffyrdd drwy'r Beibl
- Y Ffordd y daethom
- Tystiolaeth Pobl y Ffordd
- Gofal Pobl y Ffordd

Dewch i wrando, holi a dysgu sut mae dilyn Y Ffordd.